OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 1787 (Cy. 128)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *1 Mai 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Mehefin 2001* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(a), 17(1), 26(1) and (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**), a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddi, ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), ar ôl rhoi sylw, yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Teitl, cychwyn, a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig a deuant i rym ar 1 Mehefin 2001.

### Diwygio Rheoliadau Ychwanegion Amrywiol Bwyd 1995

**2.** Diwygir Rheoliadau Ychwanegion Amrywiol bwyd 1995 (**3**) i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, yn unol â Rheoliadau 3 i 5 isod.

**3.** Yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn y diffiniad o "Directive 96/77/EC" ychwanegir y geiriau "and Commission Directive 2000/63/EC"(**4**) ar y diwedd.

(**1**) 1990 p.16; diwygiwyd adran 6(4)(a) o'r Ddeddf gan Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (p.40), Atodlen 9, paragraff 6 a chan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28), Atodlen 5, paragraff 10(3). Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); mae swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers" yn arferadwy bellach, mewn perthynas â Lloegr, gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â pharagraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999; trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â'r Alban, i "the Scottish Ministers" gan adran 53 o Ddeddf yr Alban 1998 (p. 46). Mae Rheoliad 13(4) o O.S. 2000/656 yn awdurdodi'r Ysgrifennydd Gwladol yn ddiamwys i ddiwygio'r Rheoliadau sy'n bodoli eisoes ac a wnaed gan y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (p'un ai gydag eraill neu beidio) o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

(**2**) Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 1995/3187, a ddiwygiwyd gan O.S. 1997/1413 ac O.S. 1999/1136.

(**4**) OJ Rhif L277, 30.10.2000, t. 1.

**4.** Yn rheoliad 11 (darpariaeth drosiannol ac esemptiadau) mewnosodir ar ôl paragraff (1B) y paragraff canlynol—

> "(1C) In any proceedings for an offence under these Regulations in respect of any food additive or food, it shall be a defence to prove
>
> that—
>
> (a) the food additive or food concerned was put on the market or labelled before 1st June 2001; and
>
> (b) the matter constituting the offence would not have constituted an offence under these Regulations if the amendments made by regulations 3 and 5 of the Miscellaneous Food Additives (Amendment) (Wales) Regulations 2001 had not been made when that matter occurred.".

**5.** Yn Atodlen 5 (meini prawf purdeb) hepgorir y cofnodion sy'n ymwneud â'r ychwanegion amrywiol a restrir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

**Diwygiadau canlyniadol**

**6.**—(1) I'r graddau y mae unrhyw offeryn a restrir yn rheoliad 14(1) o Reoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) 1999(**5**) yn gymwys i Gymru, bydd effaith y ddarpariaeth honno yn dod i ben mewn perthynas â'r offeryn hwnnw.

(2) Yn yr offerynnau canlynol, i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, dehonglir cyfeiriadau at Reoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995 fel petaent yn gyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Ychwanegion Bwyd (Diwygio) 1997(**6**)), Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) 1999 a'r Rheoliadau hyn:

Rheoliadau Hydrocarbonau Mwnol mewn Bwyd 1966(**7**))

Rheoliadau Cynhyrchion Siwgr Penodedig 1976(**8**))

Rheoliadau Coco a Chynhyrchion Siocled 1976(**9**))

Rheoliadau Suddau Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau 1977 (**10**)

Rheoliadau Llaeth Cyddwys a Llaeth Sych 1977 (**11**))

Rheoliadau Jam a Chynnyrch Tebyg 1981(**12**))

Rheoliadau Cynhyrchion Cig a Chynhyrchion Pysgod Taenadwy 1984(**13**)d)

Rheoliadau Labelu Ychwanegion Bwyd 1992(**14**))

Rheoliadau Labelu Bwyd 1996 (**15**)

(**5**) O.S. 1999/1136.
(**6**) O.S. 1997/1413.
(**7**) O.S. 1966/1073; O.S. 1995/3187 yw'r offeryn diwygio perthnasol.
(**8**) O.S. 1976/509; O.S. 1995/3187 yw'r offeryn diwygio perthnasol.
(**9**) O.S. 1976/541; O.S. 1995/3187 yw'r offeryn diwygio perthnasol.
(**10**) O.S. 1977/927; O.S. 1995/3187 yw'r offeryn diwygio perthnasol.
(**11**) O.S. 1977/928; O.S. 1995/3187 yw'r offeryn diwygio perthnasol.
(**12**) O.S. 1981/1063; O.S. 1995/3187 yw'r offeryn diwygio perthnasol.
(**13**) O.S. 1984/1566; O.S. 1995/3187 yw'r offeryn diwygio perthnasol.
(**14**) O.S. 1992/1978; O.S. 1995/3187 yw'r offeryn diwygio perthnasol.
(**15**) O.S. 1996/1499 y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**16**)).

*Dafydd Elis Thomas*

1 Mai 2001

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**16**) 1998 c. 38.

ATODLEN Rheoliad 5

## YCHWANEGION AMRYWIOL Y MAE'R MEINI PRAWF PURDEB A BENNIR NEU Y CYFEIRIR ATYNT YN ATODLEN 5 I'R PRIF REOLIADAU YN CAEL EU HEPGOR

E 296Malic acid

E 297Fumaric acid

E 350(i)Sodium malate

E 350(ii)Sodium hydrogen malate

E 351Potassium malate

E 352(i)Calcium malate

E 352(ii)Calcium hydrogen malate

E 355Adipic acid

E 363Succinic acid

E 380Triammonium citrate

E 500(i)Sodium carbonate

E 500(ii)Sodium hydrogen carbonate

E 500(iii)Sodium sesquicarbonate

E 501(i)Potassium carbonate

E 501(ii)Potassium hydrogen carbonate

E 503(i)Ammonium carbonate

E 503(ii)Ammonium hydrogen carbonate

E 507Hydrochloric acid

E 509Calcium chloride

E 513Sulphuric acid

E 514(i)Sodium sulphate

E 515(i)Potassium sulphate

E 516Calcium sulphate

E 522Aluminium potassium sulphate

E 524Sodium hydroxide

E 525Potassium hydroxide

E 526Calcium hydroxide

E 527Ammonium hydroxide

E 528Magnesium hydroxide

E 529Calcium oxide

E 530Magnesium oxide

E 535Sodium ferrocyanide

E 536Potassium ferrocyanide

E 541Sodium aluminium phosphate, acidic

E 551Silicon dioxide

E 552Calcium silicate

E 553a(i)Magnesium silicate

E 553a(ii)Magnesium trisilicate

E 575Glucono-delta-lactone

E 576Sodium gluconate

E 577Potassium gluconate

E 578Calcium gluconate

E 640Glycine

E 900Dimethylpolysiloxane

E 901Beeswax, white and yellow

E 903Carnauba wax

E 904Shellac

E 941Nitrogen

E 942Nitrous oxide

E 948Oxygen

E 999Extract of quillaia

E 1200Polydextrose

Propane-1, 2-diol (propylene glycol)

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru yn unig, yn diwygio Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995, fel y'u diwygiwyd (“y prif Reoliadau”).

Mae'r Rheoliadau yn gweithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn 2000/63/EC sy'n diwygio Cyfarwyddeb 96/77/EC sy'n nodi meini prawf purdeb penodol ynghylch ychwanegion bwyd heblaw lliwiau a melysyddion (OJ Rhif L277, 30.10.2000, t.1).

Yn ddarostyngedig i ddarpariaeth drosiannol, mae'r Rheoliadau yn diwygio'r gofynion presennol yn y prif Reoliadau o ran y meini prawf purdeb ar gyfer butylated hydroxyanisole (BHA) ac yn pennu meini prawf purdeb newydd mewn perthynas â'r ychwanegion a bennir yn Atodiad II i Gyfarwyddeb y Comisiwn 2000/63/EC (rheoliadau 3 i 5).

Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau canlyniadol hefyd i'r offerynnau a bennir yn rheoliad 4, o ran cyfeiriadau yn yr offerynnau hynny at y prif Reoliadau (rheoliad 6).

Nid oes unrhyw arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn.